Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)**
**Education and Family Support Directorate – Directorate Support Unit (EDSU)**

Deialu uniongyrchol / Direct line: 01656 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad / Date: 17 September 2021

Annwyl riant/gofalwr

**Cludiant ysgol – "Dim cerdyn, dim cludiant'**

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ailgyflwyno'r Cynllun 'Dim Cerdyn, Dim Cludiant' i ddisgyblion oedran uwchradd sy'n teithio ar fysiau ysgol o ddydd Llun 20 Medi 2021 ymlaen.

Cafodd y cynllun ei atal yn ystod y flwyddyn ysgol ddiwethaf oherwydd pandemig COVID-19.

Mae'r cynllun yn cael ei ailgyflwyno i sicrhau mai dim ond y disgyblion hynny sydd â hawl i deithio ar y bysiau ysgol y mae'r awdurdod lleol yn eu darparu sy'n eu defnyddio.

Dros y bythefnos ddiwethaf, mae'r ysgol wedi dosbarthu cardiau newydd sy'n debyg i 'gerdyn credyd' ar gyfer blwyddyn ysgol 2021-2022. Mae'r rhain yn wahanol i'r hen gardiau (nad ydynt yn ddilys yn awr) gan eu bod yn cynnwys hologram.

O ddydd Llun 20 Medi ymlaen, os na fydd disgyblion yn dangos cerdyn dilys, ni fyddant yn cael teithio ar unrhyw fws ysgol uwchradd. Bydd pob cerdyn hefyd yn cynnwys rhif llwybr y bws a rhaid i hwnnw gyfateb i'r bws y maent yn ei ddal.

Mae cludiant ysgol ar gael i gludo disgyblion rhwng y cartref a'r ysgol ynunig. Ni chaiff disgyblion ddal bws nad yw'n cyfateb i'r manylion ar eu cerdyn. Ni chânt, er enghraifft, deithio i/o leoliadau eraill (ee cyfeiriad ffrind).

Os yw disgybl cymwys yn colli'r cerdyn bws, dylai rhieni/gofalwyr siarad â'r ysgol, a fydd yn trefnu cerdyn dros dro iddo/iddi.

Mae canllawiau ar drefniadau cludiant ysgol ar gael ar wefan yr awdurdod lleol, sef :

**Ffôn/Tel: 01656 643643** **Facs/Fax: 01656 668126** **Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk**
**Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014** **Twitter@bridgendCBC** **Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk**
**Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun**
**Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service**
**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg**
**We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh**

https://www.bridgend.gov.uk/residents/schools-and-education/
https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-ac-addysg/

Hoffwn atgoffa rheini/gofalwyr hefyd fod gan yr awdurdod bolisi dim goddefgarwch mewn perthynas â chamymddwyn ar gerbydau cludiant ysgol. Os bydd disgyblion yn peryglu ei hun, disgybl arall neu aelod o'r staff cludant, mae'n bosibl y caiff y cerdyn ei dynnu oddi arnynt.

Diolch i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus yn y cyswllt hwn.

Yn gywir



**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**

**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**